

## RHYS A MEINIR YN NANT GWRTHEYRN

Unwaith ym Mhlwyf Clynnog Fawr, roedd dau gariad ifanc, Rhys a Meinir. Roeddent yn arfer cyfarfod a'i gilydd dan gysgod hen goeden dderwen gwag-foliog ger Nant Gwrtheyrn, a mwynhau'r golygfeydd ysblennydd o'r môr. Ar ôl sawl mis o garwriaeth, penderfynodd y ddau briodi a phenodwyd dyddiad yn ganol haf ar gyfer eu priodas.

Gwawriodd y diwrnod yn heulog, ac fel yr oedd yn draddodiad ar y pryd, aeth Meinir i guddio rhag y ffrindiau ei darpar ŵr a fyddai'n dod i chwilio amdani a'i dwyn i'r eglwys.

Daeth yr amser a benodwyd ar gyfer y seremoni. Arhosodd Rhys wrth yr allor, ond doedd dim golwg o Meinir. Trodd eiliadau yn funudau hir ond dal, ni allai'r llanciau ddod o hyd i'r briodasferch. Trodd pryder yn banig ac ymunodd Rhys a'r gwestai priodas yn yr ymgyrch i ffeindio Meinir. A'r haul yn machlud ar ddiwedd y diwrnod hir, doedd dal ddim golwg o'r briodasferch.

Dros y dyddiau nesaf, bu'r plwyf cyfan yn chwilio bob twll a chornel o'r ardal amdani, ond ni chawsant fyth mohoni. Yn ei alar, parhaodd Rhys i chwilio ddydd a nos am ei gariad, yng nghwmni ei gi ffyddlon, Cidwm.

Un noson oer, yn agosáu at ganol gaeaf, dyma chwilio Rhys yn ei gymryd lawr rhiw serth tuag at Nant Gwrtheyrn. Roedd y gwynt yn codi a storm yn chwythu o'r môr. Cymerodd Rhys gysgod dan gangau'r hen dderwen, gan gofio'r holl amser dymunol oedd wedi rhannu gyda Meinir yno. Yn sydyn, dyma fflach o oleuni yn taro'r hen goeden a'i hollti yn ddwy. Syrthiodd hanner bonyn y goeden wrth ochr Rhys gan ddatgelu beth oedd wedi ei guddio y tu fewn: sgerbwd wedi ei wisgo mewn ffrog briodas garpiog a dafnau o wallt golau yn dal i lynu wrth y penglog. Torrodd calon Rhys yn ei union, syrthiodd i'r llawr a marw. Gorweddodd Cidwm y ci ffyddlon wrth gorff ei feistr ei feistr a dyna le y ffeindiwyd nhw ddyddiau wedyn gan drigolion yr ardal.